| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **27 MEDI 2012** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---


**Crynodeb Gweithredol**

**Yn ystod 2011/12 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol: £941,479 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar adneuon, sydd yn uwch na'r £699,850 a oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau lle roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.**


---

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 1 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Ystyrir mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad yn 2011/12 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 03/03/2011). Edrycha'r adroddiad ar:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthyca a rheoli dyledion;
- gweithgarwch buddsoddi; a
- chydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus.

## 2. Cefndir Economaidd

Wrth benderfynu ar strategaeth 2011/12, roedd yna arwyddion ansicr bod y DU yn dod allan o'r dirwasgiad a bod y gwaethaf o'r argyfwng ariannol y tu cefn i ni. Disgwylid i'r adferiad mewn twf fod yn broses araf ac anwadal a gweithredwyd y mesuriadau llym a gyhoeddwyd yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2010 er mwyn lleihau'r bwlch yn y gyllideb a benthyciadau'r llywodraeth, ac i gydbwyso cyllid yr economi a'r sector preifat. Roedd chwyddiant a fesurir gyda'r Mynegai Prisiau Manwerthu (CPI) wedi bod yn gyndyn i symud ac wedi aros yn uwch na 3%. Roedd 2.5 miliwn yn ddi-waith, y ffigwr uchaf ers 16 mlynedd a disgwylid iddo gynyddu mwy wrth i'r sector

gyhoeddus a'r sector preifat grebachu. Roedd yna hefyd lawer iawn o ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd dyledion sofren Ardal yr Ewro.

Yn ystod 2011-12 arhosodd chwyddiant yn uchel gyda CPI (y mesurydd swyddogol) a'r RPI yn cynyddu ym mis Medi i 5.2% a 5.6%, yn ôl eu trefn, yn bennaf oherwydd cynnydd ym mhrisiau gwasanaethau a'r cynnydd o 20% mewn TAW ym mis Ionawr 2011. Esmwythodd y chwyddiant yn araf gyda thoriadau yng nghostau trafnidiaeth a phrisiau bwyd, dwysau cystadleuaeth rhwng manwerthwyr ac uwchfarchnadoedd, ac effaith TAW yn cilio yn 2012, gan wthio CPI mis Chwefror 2012 i lawr i 3.4% a'r RPI i 3.7%. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigon i wneud i fyny am y twf isel mewn cyflogau, ac o ganlyniad, bu gostyngiad yn incwm gwario Prydeinwyr fel na welwyd ers dros dri degawd.

Ar y llaw arall, arhosodd twf yn anwadal. Cafwyd darluniau tywyll gan Adroddiadau Chwyddiant Chwarterol y Banc wrth ostwng y rhagolwg i 1% yn 2011 ac yn 2012. Roedd problemau Ardal yr Ewro a oedd heb eu datrys yn pwyso'n drwm ar ragolygon economaidd byd-eang. Dim ond yn chwarter cyntaf a thrydydd chwarter calendar 2011 yr oedd GDP y DU yn bositif; dim ond 0.5% oedd y GDP blynyddol hyd at fis Rhagfyr 2011. Cynyddodd diweithdra i 2.68 miliwn, ac, yn bryderus, aeth diweithdra ymysg pobl ifanc heibio 1 miliwn. Roedd prisiau tai'n brwydro i gynnal twf ac arhosodd hyder defnyddwyr yn fregus.

Nid oedd yn syndod i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr gynnal y drefn o ran Graddfa'r Banc, sydd bellach wedi aros yr un fath, ar 0.5%, ers mis Mawrth 2009. Fodd bynnag, cynyddwyd pryniant asedau o £75 biliwn ym mis Hydref 2011 a £50 biliwn arall ym mis Chwefror 2012 yn codi'r cyfanswm o arian a ryddhawyd i'r economi (Quantitative Easing) i £325 biliwn.

Barnwyd bod y mesurau polisi a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 yn niwtral. Cadwodd Llywodraeth San Steffan yn lled agos at ei gynlluniau llym wrth i'r economi gyrraedd cydbwysedd yn araf. Ym marn annibynnol Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb (OBR) roedd y Llywodraeth ar y ffordd i gyfarfod â'i dargedau cyllidol; cyfeiriodd yr OBR at ysgytwad ym mhrisiau olew a dirywiad pellach yn Ewrop fel y prif fygythiadau i'r rhagolwg twf ac i gyfarfod y targed cyllidol.

Daliodd economi'r UD i ddangos arwyddion ansicr a chadarnhaol o dwf ynghyd â gostyngiad graddol yn y gyfradd ddiweithdra. Ymrwymodd Cronfa Ffedral y UD (y Ffed) i gadw'r graddfeydd polisi yn isel hyd at 2014, er bod symudiad bychan yn ieithwedd y Ffed ym mis Mawrth yn ogystal â gwelliant yng ngweithgarwch yr economi wedi codi amheuon ynghylch pa mor barhaol yw'r ymrwymiad polisi hwn.

Yn Ewrop, roedd problemau dyledion sofren rhai gwledydd ymylol yn argyfyngus. Roedd nifer o gynlluniau polisi yn aneffeithiol; roedd angen dau becyn achub, un yng Ngroeg ac un ym Mhortiwgal, ac ymledodd yr haint i Sbaen ac i'r Eidal ble'r oedd eu bondiau sofren dan bwysau cynyddol ym mis Tachwedd. Israddiwyd naw sofren Ewropeaidd gan Standard & Poor's ynghyd â Chronfa Achub yr EFSF. Galluogodd cyfnewid bondiau sofren Groeg ym mis Mawrth 2012, yn fuan ar ôl derbyn ei ail becyn achub, i'r wlad osgoi methdalu yn hwyrach y mis hwnnw, ond nid oedd yn ddatrysiad tymor hir er hynny. Bu i €1.3 triliwn o Weithrediadau Ail-ariannu Tymor Hir (LTROs) yr ECB lenwi'r marchnadoedd ariannol gyda hylifedd tair blynedd rad iawn, gan roi

rhyddhad i lawer o’r pwysau ariannu di-oed oedd yn wynebu banciau Ewrop yn 2012, ond yn y diwedd roedd y marchnadoedd o’r farn mai dim ond peri oediad i’r datrysiad wnaeth yr LTROs yn hytrach nag ymdrin â’r mater sylfaenol oedd yn greiddiol i broblemau Ardal yr Ewro.

Pendiliodd teimladau’r farchnad rhwng “bygythiad” a ”dim bygythiad”, a daeth hyn yn beth arferol drwy gydol 2011/12 wrth i fuddsoddwyr newid rhwng asedau oedd dan fwy o fygythiad a diogelwch bondiau ansawdd uwch y llywodraeth. Roedd giltiau, fodd bynnag, yn elwa o’r thema ‘dim bygythiad’ ac roedd hyn yn gymorth i wthio’r cynnyrch yn is. Nid oedd fawr o ymateb gan y marchnadoedd i effaith penderfyniad Fitch a Moody’s i newid rhagolygon cyfradd tair seren y DU o fod yn sefydlog i fod yn negatif. Nid oedd effaith ar y giltiau ychwaith. Yn ystod y cyfnod 12 mis rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012, hanerwyd cynnyrch gilitiau pum mlynedd o 2.40% i 1.06%, gostyngodd giltiau deg mlynedd o 3.67% i 2.25%; cynnyrch 20 mlynedd o 4.30% i 3.20% a chynnyrch 50 mlynedd o 4.20% i 3.35%. Gostyngodd cyfraddau benthyca PWLB yn raddol, ond arhosodd y gost o gario drosodd oedd ynghlwm â benthyca ar sail fwy hirdymor wrth fuddsoddi’r arian dros dro nes bod eu hangen ar gyfer arian cyfalaf yn uchel, dros 4.1% ar gyfer benthyciadau aeddfediad PWLB.

Roedd sefyllfa sector bancio Ewrop wedi’i gysylltu’n agos gyda’r sector sofren. Roedd symudiadau llym mewn CDS sofren a chynnyrch bondiau yn cyd-fynd yn eithaf agos gyda perfformiad sector bancio’r gwledydd. Roedd gan y dirywiad yn y rhagolwg ar gyfer gwir dwf oblygiadau ar enillion ac elw, ac ar i ba raddau yr oedd banciau’n teilyngu credyd. Adnabu profion straen bancio yr Awdurdod Bancio Ewropeaidd ar 70 o fanciau’r UE ym mis Hydref 2001 ddiffyg cyfunol o €106 biliwn yng nghyfradd Lefel Craidd 1 y banciau o 9%. Fe effeithiodd yr arafwch mewn gweithgarwch marchnadoedd dyledion ac ecwiti cyfalaf ar ariannu a hylifedd y banciau hefyd. Arweiniodd y prif ffactorau hyn, yn ogystal â chael ailasesiad gan yr asiantaethau cyfradd ar ddyfodol cefnogaeth sofren i fanciau, at israddio cyfraddau tymor hir nifer o sefydliadau ariannol y DU a rhai y tu allan i’r DU yn hydref 2011.

## 3. Y Gofyn Benthyca a Rheoli Dyledion

| | Balans ar 01/04/2011 £m | Dyledion Aeddfed £m | Dyledion wedi’u had-dalu’n gynnar £m | Benthyciad -au Newydd £m | Trosglwydd o i Tymor Byr | Balans ar 31/03/2012 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | 150 | | | | | 152 |
| **Benthyca Tymor Byr** | 5 | (5) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Benthyca Tymor Hir** | 114 | | | | (1) | 113 |
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | **119** | **(5)** | **0** | **0** | **0** | **114** |
| **Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM DYLEDION ALLANOL** | **119** | **(5)** | **0** | **0** | **0** | **114** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Benthyca £m** | | | | | | 5 |

Amcangyfrifwyd bod yr angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca, wedi'i fesur drwy'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) ar 31/3/2012 yn £152m. Roedd gofynion benthyca (ychwanegol) y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn £0m.

Ariannodd y Cyngor £8.9m o'i wariant cyfalaf drwy fenthyca mewnol. Mae hyn, am y tro, wedi gostwng y risg cyffredinol i'r trysorlys drwy leihau dyledion allanol a buddsoddiadau dros dro. Er disgwylir i'r sefyllfa hon barhau yn 2012/13, ni fydd modd cynnal hyn dros y tymor canolig. Disgwylia'r Cyngor y bydd yn rhaid benthyg £5m er dibenion cyfalaf erbyn 2013/14.

## 4. Posibilrwydd o gael cyfraddau benthyca is gan PWLB

Roedd paragraff byr yn Adroddiad Cyllideb 2012 (mis Mawrth 2012) yn cynnwys bwriad Trysorlys EM i gynnig disgownt 20 pwynt ar fenthyciadau gan y PWLB "*for those principal local authorities providing improved information and transparency on their locally-determined long-term borrowing and associated capital spending plans*" a'r posibilrwydd i gorff annibynnol hwyluso darparu "*a further reduced rate for authorities demonstrating best quality and value for money*". Yn ystod 2012/13, mae'r Cyngor wedi darparu'r wybodaeth ofynwyd amdano, gyda golwg ar sicrhau'r disgownt yma oddi ar fenthyciadau tebygol mewn blynyddoedd dilynol.

## 5. Gweithgarwch Buddsoddi

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch.

| **Buddsoddiadau** | Balans ar 01/04/2011 £m | Buddsoddiadau a wnaed £m | Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £m | Balans ar 31/03/2012 £m |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 63.1 | 319.0 | (329.5) | 52.6 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi'u Cyfuno | 5.0 | 98.8 | (103.8) | 0 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **68.1** | **417.8** | **(433.3)** | **52.6** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | (15.5) |

Roedd diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Cyngor sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategol Rheoli Trysorlys 2011/12. Roedd y buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adneuon gydag awdurdodau lleol eraill;
- Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Arian Marchnad statws AAA sydd gan werth net sefydlog i asedau;
- Cyfrifon ar alw ac adneuon mewn banciau a chymdeithasau adeiladu sydd o bwysigrwydd systematig i system fancio gwledydd cymharol ddiogel (y DU, Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden, Y Swistir ac UDA).

**Risg Credyd**
Caiff ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at statws credyd; amnewid diffyg credyd (credit default swaps); "GDP" y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i "GDP"; unrhyw fecanweithiau cefnogi posib ynghyd â phris y cyfranddaliadau. Gosodwyd A+/A1 (Fitch/Moody's/S&P) y statws credyd tymor hir fel isafswm ar gyfer gwrthbartïon yn strategaeth trysorlys 2011/12.

Addaswyd y maen prawf penodol hwn ar 15 Rhagfyr 2011 gan y Cyngor llawn i A-/A3, wedi i nifer o sefydliadau o bwysigrwydd systematig i'r system ariannol gael ei israddio i statws credyd o dan A+. Gyrrwyd yr israddio hwn yn bennaf gan farn yr asiantaethau ynghylch graddau'r gefnogaeth gan y Llywodraeth yn y dyfodol (yn deillio o'r argymhellion i'r Llywodraeth gan y Comisiwn Annibynnol ar Fancio) yn hytrach na dirywiad mewn teilyngdod credyd y sefydliadau unigol.

Mae ansawdd credyd gwrthbartïon wedi gostwng yn raddol fel y dengys y Dadansoddiad isod o Sgoriau Credyd. Mae hyn oherwydd bod lleiafswm ansawdd credyd gwrthbartïon wedi'i addasu i A-/A3. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn egluro'r sgôr credyd.

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2011 | 3.69 | AA- | 2.26 | AA+ | 109 |
| 30/06/2011 | 3.49 | AA | 2.70 | AA | 152 |
| 30/09/2011 | 3.07 | AA | 2.50 | AA+ | 80 |
| 31/12/2011 | 3.57 | AA- | 3.58 | AA- | 64 |
| 31/03/2012 | 4.98 | A+ | 4.93 | A+ | 27 |

**Hylifedd**
Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, bu i'r Cyngor gynnal lefel ddigonol o hylifedd drwy ddefnyddio Cronfeydd Arian Marchnad, adneuon dros nos a chyfrifon ar alw.

**Cynnyrch**
Ceisiodd y Cyngor optimeiddio enillion yn gymesurol â'r amcanion sefydlogrwydd a hylifedd. Cynhaliwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% drwy gydol y flwyddyn.

Ystyriodd y Cyngor mai byrhau aeddfediadau buddsoddiadau newydd oedd yr ymateb priodol er mwyn rheoli risgiau gydag amodau credyd ansicr a oedd yn dirywio yn Ewrop. Hefyd, arhosodd cyfraddau arian y farchnad tymor byr ar lefelau isel iawn, a cafodd hynny effaith sylweddol ar incwm o fuddsoddiadau.

**Diweddariad ynglŷn â Buddsoddiad y Cyngor ym Manc Heritable**

Disgwylir y bydd o leiaf 88c/£ yn cael ei adennill. Erbyn hyn mae 67.9% wedi'i adennill, a disgwylir 14.3% arall yn 2012/13, a 5.8% neu fwy yn 2013/14.

## 6. Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2011/12, a gymeradwywyd ar 3 Mawrth 2011 fel rhan o Ddatganiad Polisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r manylion fel a ganlyn yn Atodiad 1.

## 7. Argymhelliad

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**Atodiad 1**

## Dangosyddion Darbodus 2011-12

**Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR)**
Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2011/12 hyd at 2013/14 yn y tabl isod:

| | 31/3/2012 Amcangyfrif £000 | 31/3/2012 Gwir £000 | 31/3/2013 Amcangyfrif £000 | 31/3/2014 Amcangyfrif £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gros CFR | 153,800 | 152,241 | 155,904 | 160,361 |
| **Llai:** Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | (47) | (29) | 0 | 0 |
| **Benthyca CFR** | **153,753** | **152,212** | **155,904** | **160,361** |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol | (113,870) | (114,341) | (113,085) | (111,969) |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **39,883** | **37,871** | **42,819** | **48,392** |

**Cronfeydd Defnyddiadwy**
Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd y Cyngor ar gyfer 2011/12 hyd at 2013/14 fel a ganlyn:

| | 31/3/2012 Amcangyfrif £000 | 31/3/2012 Gwir £000 | 31/3/2013 Amcangyfrif £000 | 31/3/2014 Amcangyfrif £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Defnyddiadwy | 63,140 | 68,920 | 63,456 | 57,023 |

## Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

### (a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £190m ar gyfer 2011/12.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys yr ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2011/12 yn £170m.

Ni dorrwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn; cyrhaeddwyd brig o £120m o ran benthyca.

**(b) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol**

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu’r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | **Terfynau ar gyfer 2011/12 %** | **Uchafswm yn ystod 2011/12 %** |
|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% | 100% |
| Cydymffurfio â’r Terfynau: | Ie | Ie |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% | 0% |
| Cydymffurfio â’r Terfynau: | Ie | Ie |

**(c) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog**

Mae’r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf %** | **Terfyn Isaf %** | **Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2012 £’000** | **% y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2012** | **Cydymffurfio â’r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 25% | 0% | 1,256 | 1.10% | Ie |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 17,317 | 15.21% | Ie |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 2,761 | 2.42% | Ie |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 6,924 | 6.08% | Ie |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | 23,661 | 20.78% | Ie |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | 34,594 | 30.38% | Ie |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | 0 | 0.00% | Ie |
| 40 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 27,352 | 24.03% | Ie |
| **CYFANSWM** | | | **113,865** | **100.00%** | |

**(d) Gwir Ddyledion Allanol**

Ceir y dangosydd hwn yn uniongyrchol o fantolen y Cyngor. Dyma'r balans terfynol ar gyfer y gwir fenthyca gros (hirdymor a byrdymor) yn ogystal â rhwymedigaethau eraill. Caiff y dangosydd hwn ei fesur mewn modd sy'n addas ar gyfer ei gymharu â'r Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig.

| **Gwir Ddyledion Allanol ar 31/03/2012** | **£m** |
|---|---|
| Benthyca | 115.050 |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 0.029 |
| **Cyfanswm** | **115.079** |

**(e) Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod**

Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu'r Cyngor i reoli'r risg sydd ynghlwm â buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod. Gosodwyd y terfyn ar gyfer 2011/12 ar £40m.
Polisi'r Cyngor ers dechrau'r wasgfa ariannol yn 2007 yw cadw aeddfeddiadau buddsoddi am hyd at uchafswm o flwyddyn. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau am gyfnod hwy na blwyddyn yn ystod y cyfnod hwn.

**(f) Gwariant Cyfalaf**

Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

| **Gwariant Cyfalaf** | **Amcangyfrif 2011/12 £m** | **Gwir 2011/12 £m** | **Amcangyfrif 2012/13 £m** | **Amcangyfrif 2013/14 £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Dim HRA** | 38.65 | 35.97 | 41.99 | 38.87 |
| **HRA*** | 0.06 | 0.00 | 0.04 | 0.00 |
| **Cyfanswm** | **38.71** | **35.97** | 41.99 | 38.87 |

Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu, a bydd yn cael ei gyllido neu ei ariannu, fel a ganlyn:

| **Cyllido Cyfalaf** | **Amcan-gyfrif 2011/12 £m** | **Gwir 2011/12 £m** | **Amcan-gyfrif 2012/13 £m** | **Amcan-gyfrif 2013/14 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau cyfalaf | 4.20 | 2.79 | 3.22 | 2.35 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 15.66 | 16.11 | 16.58 | 15.07 |
| Cyfraniadau Refeniw | 9.04 | 8.17 | 9.24 | 7.50 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **28.90** | **27.07** | **29.04** | **24.92** |
| Benthyca wedi'i gefnogi | 5.44 | 5.44 | 4.86 | 4.04 |
| Benthyca heb ei gefnogi | 4.37 | 3.46 | 5.63 | 10.18 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **9.81** | **8.90** | **12.95** | **16.69** |
| **Cyfanswm Cyllido ac Ariannu** | **38.71** | **35.97** | **41.99** | **41.61** |

Dengys y tabl na ellir ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn llwyr o ffynonellau ar wahân i fenthyca allanol.

### (g) Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido. Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar gostau net incwm o fuddsoddiadau.

| | Amcangyfrif 2011/12 % | Gwir 2011/12 % | Amcangyfrif 2012/13 % | Amcangyfrif 2013/14 % |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:** | **5.68** | **5.31** | **5.65** | **5.55** |

### (h) Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor a Rhent Tai. Cyfrifir yr effaith ychwanegol (*incremental impact*) drwy gymharu cyfanswm y gofyn cyllideb refeniw yn y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol, gyda chyfrifiad cyfwerth o'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf:** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £** | **Amcangyfrif 2012/13 £** | **Amcangyfrif 2013/14 £** |
|---|---|---|---|
| Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor | 10.08 | 6.66 | 27.72 |

### (i) Mabwysiadu Cod Rheoli Trysorlys CIPFA

Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion yr arferion gorau.

| **Mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA** |
|---|
| Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu Cod Rheoli Trysorlys CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011. |

**(j) Dyled Gros a Net**

Pwrpas y dangosydd trysorlys hwn yw tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi.

| Terfyn Uchaf ar Ddyled Net o'i gymharu â Dyled Gros | Gwir 2011/12 £m | Amcangyfrif 2012/13 £m | Amcangyfrif 2013/14 £m |
|---|---|---|---|
| Benthyca | 114 | 113 | 112 |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill (gwerth nominal) | 0 | 0 | 0 |
| **Dyled Gros** | 114 | 113 | 112 |
| **Llai: Buddsoddiadau** | 47 | 36 | 15 |
| **Dyledion Net** | **67** | **77** | **97** |

Mae CIPFA wedi cydnabod nad yw'r terfyn uchaf yn gweithio cystal â'r bwriad, ac maent yn gweithio ar ddangosydd diwygiedig. Bydd y dangosydd hwn yn cael ei addasu unwaith y byddwn yn derbyn y canllawiau diwygiedig gan CIPFA.

**(k) Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod**

Pwrpas y terfyn hwn yw ceisio atal y posibilrwydd o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd.

| | Wedi'i gymerad-wyo 2011/12 £m | Wedi'i adolygu 2011/12 £m | Amcan-gyfrif 2012/13 £m | Amcan-gyfrif 2013/14 £m | Amcan-gyfrif 2014/15 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod tros 364 diwrnod** | **40** | **40** | **40** | **40** | **40** |

Ni fuddsoddwyd unrhyw brif symiau am gyfnod hwy na 364 diwrnod.

**<u>Atodiad 2</u>**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

<u>Sgorio</u>:

| Statws Credyd Tymor Hir | Sgôr |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |
| Heb ei sgorio | 11 |
| BB | 12 |
| CCC | 13 |
| C | 14 |
| D | 15 |

Mae'r cyfartaledd ar sail gwerth yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr arian wedi'i adnau. Mae'r cyfartaledd ar sail amser yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl tymor yr adneuon.

Yn wreiddiol, roedd y Cyngor yn anelu i gyrraedd sgôr o 5 neu is, yn adlewyrchu prif flaenoriaeth y Cyngor sef diogelwch yr arian a fuddsoddir (a'r trothwy cyfradd credyd hanfodol o A+ ar gyfer gwrthbartïon buddsoddi) ond lleihawyd y targed i 7 neu is yn dilyn gostyngiad yn y trothwy cyfradd credyd hanfodol i A- ar gyfer gwrthbartïon buddsoddi.